**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1348
Ein cyf/Our ref EM/00507/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 23 Chwefror am Ddeiseb P-06-1348 Comisiynu gwasanaethau GIG addas yng Nghymru ar gyfer pobl â Syndrom Ehlers-Danlos (EDS) neu anhwylderau'r sbectrwm hypersymudedd.

Rôl Gweithrediaeth y GIG yw helpu i sicrhau bod dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu defnyddio i wella canlyniadau cleifion a chynaliadwyedd gwasanaethau, a bod dysgu'n cael ei rannu ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i sbarduno symud adnoddau'n lleol mewn gofal sylfaenol a chymunedol.

Mae'r rhwydweithiau sydd ar waith wedi creu strwythurau amlddisgyblaethol ac amlbroffesiynol sy'n creu hygrededd ar gyfer y gwahanol staff sy'n darparu'r gwasanaethau, a'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.

Rhwydweithiau i gyflyrau cyhyrysgerbydol a chlefydau prin yw'r rhwydweithiau perthnasol sy'n gysylltiedig ag EDS, ac mae'r Rhwydwaith Strategol Cyhyrysgerbydol wrthi'n penodi Rheolwr Rhwydwaith. Yr arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer cyflyrau cyhyrysgerbydol yw Dr Rob Letchford, a gellir cysylltu ag ef drwy e-bostio: Robert.letchford@wales.nhs.uk. Y bwriad yw creu rhwydwaith cyhyrysgerbydol o fewn strwythur Gweithrediaeth y GIG o 1 Ebrill 2024, ond mae hyn yn ddibynnol ar apwyntiadau. Bydd angen amser arnynt i ymwreiddio yn eu strwythur a'u dull gweithredu, a bydd 2024 yn flwyddyn bontio ac yn gyfnod i'r Rhwydwaith ymsefydlu.

Mae'r rhwydwaith gweithredu cenedlaethol ar gyfer glefydau prin eisoes ar waith. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: Clefydau Prin - GIG Cymru Gweithrediaeth. Gallwch gysylltu â nhw drwy: NHSWHC_RDIG@wales.nhs.uk.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer ansawdd gofal a chynllunio gwasanaethau. Nid ydym yn cymeradwyo dulliau penodol ar gyfer trin cleifion nac yn ariannu eu heiriolaeth. Mater i'r GIG ei ystyried, drwy Weithrediaeth y GIG, fyddai'r cymorth logistaidd y gofynnir amdano ar gyfer cefnogi'r pecyn cymorth i feddygon teulu.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn helpu i egluro cylchoedd gwaith y sefydliadau perthnasol.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services